# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd C A Green** **Ward: Bryntirion a Threlales**

**Plaid: Democrat Rhyddfrydol – Cynghrair Annibynnol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Bryntirion a Threlales ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol nifer o atgyfeiriadau ac ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

---

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn ogystal â bod yn gynghorydd bwrdeistref rwyf hefyd yn gynghorydd cymuned ar gyfer y ward hon.
Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn bioamrywiaeth ac rwyf wedi cymryd rhan yn y prosiect i hyrwyddo hyn yn y ward. Yn y flwyddyn bresennol bydd plannu harddach ym Mryntirion. Mae hyn yn dilyn cyfarfodydd am y plannu blaenorol nad oedd wedi cael derbyniad da. Rwyf bob amser wedi cymryd rhan yn yr arddangosfa tân gwyllt bob blwyddyn a hefyd gyda'r cinio a'r gyngerdd Nadolig i bensiynwyr. Mae diwrnod hwyl Broadlands yn ddigwyddiad arall rwyf yn ei gefnogi a chymryd rhan weithgar ynddo.
Ar hyn o bryd rwy'n llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Bryntirion a hefyd yn is-gadeirydd llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Trelales.

Mae'r cyngor cymuned bellach yn cymryd cyfrifoldeb am Ganolfan Gymunedol Bryntirion, sy'n fenter rwy'n ei chefnogi'n llawn ac edrychaf ymlaen at ddatblygu'r ganolfan ymhellach at ddefnydd pawb yn y gymuned. Ymhlith y prosiectau parhaus eraill rwy'n eu cefnogi mae'r goleuadau Nadolig a'r basgedi crog, a bu'r ddau brosiect hyn yn boblogaidd ac maent yn gwella ein cymuned.

Mewn ymateb i geisiadau am gysgodfannau bws newydd, mae dau wedi'u harchebu ar hyn o bryd ac rydym yn aros iddynt gael eu gosod. Mae un ar Donglas, ac mae'r llall ar y brif ffordd ger y groesffordd ar ben arall y pentref a gofynnwyd amdano gan nifer o drigolion Broadlands sy'n defnyddio'r safle bws hwnnw yn rheolaidd.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n gwasanaethu ar Gyngor Iechyd Cymuned Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. ar hyn o bryd.

**Y Cynghorydd C.A. Green** **Dyddiad: 30 Mai 2018.**